

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo i roi prosesau fforensig digidol ar waith ochr yn ochr â chynnal cywirdeb tystiolaethol.

Mae hyn yn cynnwys helpu i nodi, casglu a dadansoddi gwybodaeth ddigidol i gefnogi ymchwiliadau i bennu amgylchiadau digwyddiadau sy'n peri pryder i sefydliad. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso ystyriaethau moesegol yn ogystal â gwybod pryd i beidio â chymryd camau.

Mae'r safon hon yn cwmpasu'r cymwyseddau sydd eu hangen i gynorthwyo i roi prosesau fforensig digidol ar waith. Mae ar gyfer y rhai sydd angen cynorthwyo i roi prosesau fforensig digidol ar waith yn rhan o'u dyletswyddau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Cynorthwyo i nodi ffynonellau gwybodaeth posibl o ddyfeisiau a systemau digidol wrth gadw tystiolaeth
2. DADOSOD ac ailosod dyfeisiau digidol i greu delweddu fforensig a chasglu data
3. Cynorthwyo i adrodd yn gywir ar wybodaeth briodol am ddigwyddiadau yn unol â safonau sefydliadol
4. Cynorthwyo i adfer data o ddyfeisiau a systemau digidol gan ddefnyddio offer fforensig digidol cymeradwy yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. Cynorthwyo'r gwaith o ddadansoddi tystiolaeth ddigidol gan ddefnyddio offer a thechnegau cymeradwy i gynhyrchu gwybodaeth mewn fformat sy'n barod i'w harchwilio'n llawn gan ddadansoddwyr fforensig digidol
6. Cyfrannu at ddogfennu gwybodaeth am ddigwyddiadau i gadw cofnodion cywir ac archwiliadwy
7. Cynorthwyo i gynnal a chadw seilwaith ac offer caledwedd a meddalwedd fforensig digidol
8. Cynhyrchu adroddiadau o waith fforensig digidol a wnaed yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
9. Cymhwyso nodweddion sylfaenol y gyfraith, rheoliadau a safonau sefydliadol sy'n berthnasol i weithgareddau fforensig digidol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Bod fforensig ddigidol yn nodi, casglu, archwilio a dadansoddi data tra'n cadw cywirdeb y wybodaeth a chynnal cadwyn gaeth o warchodaeth ar gyfer y data
2. Y mathau o gamddefnyddio cyfrifiaduron a all ddigwydd a sut i'w hadnabod
3. Egwyddorion fforensig cyfrifiadurol a phwysigrwydd sicrhau nad yw tystiolaeth yn cael ei halogi
4. Y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron a deddfau sifil a throseddol sy'n berthnasol i ymchwiliadau fforensig digidol
5. Pryd i beidio â chymryd camau yn ystod ymchwiliadau fforensig digidol
6. Yr angen i ystyried moeseg wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol yn ystod ymchwiliadau fforensig
7. Y mathau o ddyfeisiau digidol y gellir ymchwilio iddynt, gan gynnwys ffonau symudol, gliniaduron, llechi a chyfrifiaduron personol, ffeiliau log systemau sefydlog a rhwydwaith cwmwl, a dyfeisiau storio digidol cludadwy
8. Y prif egwyddorion, offer a thechnegau a ddefnyddir yn y broses eDdarganfod
9. Sut i gymhwyso sgiliau ymchwilio a thrin tystiolaeth mewn ymchwiliadau fforensig digidol
10. Brysbennu dulliau archwilio, prosesu ac adrodd sylfaenol dyfeisiau ffôn symudol.
11. Rôl cadwyn gystodaeth o ran cadw gwerth tystiolaeth ddigidol
12. Natur gyfnewidiol data
13. Sut i ymchwilio i systemau gweithredu
14. Y strwythurau ffeiliau a ddefnyddir ar gyfer gyriannau disg caled, ffeiliau rhwydwaith a gyriannau solet
15. Pwysigrwydd gwerthoedd hash mewn fforensig ddigidol ar gyfer cywirdeb data
16. Offer fforensig digidol safonol y diwydiant a ddefnyddir i echdynnu a dadansoddi tystiolaeth ddigidol a sut i'w defnyddio
17. Sut i ymgymryd â fforensig rhwydweithiau mewn gweinydd cleient a rhwydwaith rhithwir
18. Sut i ddarllen data ar ffonau symudol
19. Sut i wneud cais am fynediad at ddata pwnc, ei olygu a'i ddatgelu
20. Gweithdrefnau fforensig ddigidol sefydliadol, safonau rheoleiddiol a rhyngwladol a chodau ymarfer y diwydiant

Cynorthwyo i roi prosesau ffforensig digidol ar waith

Datblygwyd gan	e-skills
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2023
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2026
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ODAG Consultants Ltd.
RCU gwreiddiol	TECDT61231
Galwedigaethau perthnasol	Gweithwyr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Proffesiynol
Cyfes/Set	Gweithiwr TG a Thelathrebu Proffesiynol (procom)
Geiriau Allweddol	seiberddiogelwch, ffforenseg ddigidol
